**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd yn hybrid nos Fercher, 21 Mehefin 2023, a ddechreuodd yn union ar ôl gorffen Cyfarfod Arbennig y Cyngor.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**23. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**24. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y cyngor a'i bwyllgorau a ganlyn i'w cymeradwyo fel cofndion cywir:

Cyfarfod Blynyddol y Cyngor - 10 Mai 2023 - Cofnodion rhifau 1-18

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 7 Mehefin 2023 - Cofnodion rhifau 1 - 3

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 7 Mehefin 2023 - Cofnodion rhifau 1 - 18

Ymddiheurodd Clerc y Dref fod colofn ffigurau ar goll o'r tabl a gynhwyswyd fel rhan o eitem agenda rhif pedwar a chynghorodd bod y ffigurau wedi'u cynnwys i ffurfio cofnod cywir.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a chadarnhau eu gweithredu.*

**25. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at y digwyddiadau roedd hi a'r Dirprwy Faer wedi bod ynddynt yn ystod y mis diwethaf (dosbarthwyd gyda'r agenda). Cyfeiriodd yn benodol at ddigwyddiadau Costau Byw Dŵr Cymru yng Nghanolfan Ask a oedd

yn cynnig llwyth o wybodaeth ar sut i gael gafael ar ystod eang o gymorth. Crybwyllodd y Cynghorydd McAlpine ymweliad Cadetiaid y Môr y Rhyl â Siambr y Cyngor a chyflwyno bathodynnau Cadetiaid Anrhydedd, a fu'n noswaith bleserus iawn.

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at y tri digwyddiad y bu ynddynt a dywedodd eu bod oll wedi bod yn wych.

## 26. RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS

Ymhellach i gofnod rhif 21 Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd yn union cyn y cyfarfod hwn, cyhoeddodd y Maer yr ffurfiol y dyfarnwyd teitl Rhyddfreiniwr y Rhyl i'r cyn Gynghorydd Tref Mrs Patricia Margaret Jones.

## 27. CYFLWYNIAD: COLEG Y RHYL, PENNAETH COLEG LLANDRILLO

Ymhellach i gofnod rhif 60 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022, cynghorodd Clerc y Dref nad oedd Mr Wood wedi cyrraedd ac awgrymodd i'r cyfarfod barhau gyda'r nod o'r aelodau'n cael cyflwyniad gan Mr Wood petai'n cyrraedd cyn diwedd y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r aelodau'n derbyn y cyflwyniad petai Mr Wood yn cyrraedd cyn diwedd y cyfarfod.*

## 28. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017 ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B (rhestr o daliadau nad ydynt yn rhai rheolaidd i'w talu yn ystod y mis nesaf) a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb rhif: | Cyflenwr | Manylion | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1651 | Cyngor Tref yr Wyddgrug | Dau docyn i gyngerdd y Maer a gynhaliwyd ar 23/6/23 | 20.00 |
| 1652 | Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine | Lwfans y Maer 22/23 – taliad 1 o 3 | 433.33 |
| 1653 | Y Cynghorydd Miss C. L. Williams | Lwfans y Dirprwy Faer 22/23 – taliad 1 o 3 | 133.33 |
| ***R*** 1654 | Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine | Lwfans Uwch Swydd 22/23 – taliad 1 o 3 | 166.67 |
| ***E*** 1655 ***S*** | Y Cynghorydd Miss C. L. Williams | Lwfans Uwch Swydd 22/23 – taliad 1 o 3 | 166.67 |
| ***O*** 1656 | Blossom & Bloom | Cyfraniad tuag at gostau gweithredu | 500.00 |
| ***L V*** | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£1,420.00** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r taliadau yn yr atodlen a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 29. ADRODDIAD YR ARCHWILYDD MEWNOL 2022/23 (TERFYNOL)

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a gofynnodd i'r aelodau ystyried a chymeradwyo Adroddiad Terfynol yr Archwilydd Mewnol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Ychwanegodd Clerc y Dref fod y ddau fater a godwyd gan yr Archwilydd Mewnol yn ei Adroddiad Interim ym mis Chwefror 2023 wedi'u hystyried a gweithredwyd arnynt gan yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau a nododd na chyfeiriwyd at unrhyw faterion pellach yn yr Adroddiad Terfynol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiadau.*

**30. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2022/23**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ar y cyd gyda'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ac at y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 wedi'i lenwi, i'w gynnwys yn Natganiad Blynyddol y Cyngor Tref ar gyfer 2022/23.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac awdurdodi'r Maer i lofnodi'r ddogfen ar ran y Cyngor Tref.*

**31. DATGANIAD BLYNYDDOL CYNGHORAU LLEOL YNG NGHYMRU 2022/23**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ar y cyd gyda'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a'r ddogfen Datganiad Blynyddol wedi'i llenwi (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a gofynnodd i'r aelodau ei gymeradwyo i'w gyflwyno i'r Archwilydd Allanol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol ac awdurdodi'r Maer i lofnodi'r ddogfen ar ran y Cyngor Tref.*

**32. EITEM AELOD: Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD**

Gofynnodd y Cynghorydd D. Simmons am gefnogaeth yr aelodau i wneud sylwadau i Gyngor Sir Ddinbych i ddynodi tir yng ngogledd y sir ar gyfer mynwent newydd yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Simmons y byddai mynwent Rhuddlan yn llawn ymhen 18 mis a bod ymweld ag anwyliaid wedi marw ym mynwent Coed Bell yng Ngronant Uchaf gan deithio o'r Rhyl ar y bws yn golygu taith ar bedwar bws a cherdded tair milltir.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais ac i Glerc y Dref anfon copi at yr holl gynghorau cymuned cyfagos a arferai ffurfio Cyngor Bwrdeistref Rhuthun a Chyngor Tref Bae Cinmel i geisio eu cefnogaeth i hyn.*

**33. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 34. COFNODION CYFRINACHOL

Cyflwynwyd y cofnodion a ganlyn (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion ynddynt:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 15 Mai 2023 | - | Cofnodion rhifau 1-9 |

Tynnodd Glerc y Dref sylw'r aelodau at y penderfyniadau a wnaed gan y pwyllgor i gymeradwyo £2,000 i Homestart y Rhyl, cynyddu cyfraniad y Cyngor Tref o £11,000 i £14,000 y flwyddyn a chymeradwyo £500 i'r elusen leol, Blossom and Bloom, ar gyfer costau gweinyddol.

Byddai'r cyfraniad i Blossom and Bloom yn wariant Adran 137 ble mae'n ofynnol cael penderfyniad ffurfiol fod yr aelodau'n fodlon y byddai'r gwariant yn arwain at fudd uniongyrchol i rai o drigolion y Rhyl a bod y budd yn gymesur â'r gwariant.

Cynghorodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ei bod yn cytuno'n llwyr â'r cyfraniadau i'w gwneud i Homestart y Rhyl a'r Siop Cyngor am Fudd-daliadau, ond nid i Blossom and Bloom, a hoffai i hynny gael ei nodi yn y cofnodion.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.*

## 35. CYFLWYNIAD: COLEG Y RHYL, PENNAETH COLEG LLANDRILLO

Cyngorodd Clerc y Dref fod Mr Lawrence Wood wedi cyrraedd ac y byddai'n cyflwyno ei gyflwyniad i'r aelodau yn awr.

Gwnaeth y cyfarfod barhau mewn sesiwn agored.

Croesawyd Mr Wood i'r cyfarfod gan y Maer. Ymddiheurodd am fod yn hwyr gan esbonio ei fod wedi tybio, mewn camgymeriad, fod y Cyngor Tref yn cyfarfod yn Neuadd y Dref.

Dywedodd Mr Wood mai cenhadaeth y Coleg oedd gwella dyfodol pobl, ac ers iddo ddod yn Bennaeth Coleg Llandrilllo ym mis Tachwedd 2016 bu'r pwyslais ar sicrhau bod y coleg yn addas i'w bwrpas i bobl ddysgu'r sgiliau a oedd eu hangen arnynt i wneud cynnydd, a gwneud y cyfan i'w cefnogi drwy gydol eu cyfnod yn y coleg.

Dywedodd Mr Wood fod y Rhyl yn agos iawn at ei galon gan fod ei deulu yn hanu o'r dref.

Rhan o'r strategaeth oedd 'gwella'. Cafwyd tarfu enfawr a newid llwyr yn addysg y dysgwyr a oedd yn 14/15 oed yn ystod cyfnodau clo Covid, ar adeg allweddol yn eu datblygiad. Roedd y dysgwyr hyn yn dod i'r coleg nawr yn 16/17 oed ac yn gorfod addasu i ddysgu 'wyneb yn wyneb' eto.

Roedd y coleg yn cynnig brecwast am ddim i bawb i annog a rhoi cymorth i ddysgwyr, er mwyn eu paratoi'n well i ddysgu a chymryd rhan, ac roedd y campws bellach yn cynnwys Starbucks gyda soffas cyffyrddus.

Mae gan y coleg Fentoriaid Llwyddiant Myfyrwyr, sef staff wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr i fynychu'r coleg a bod yn llwyddiannus.

Dilynir cynnydd dysgwyr yn fanwl ac roedd y rhai sy'n absennol yn cael cymorth a chefnogaeth i wella eu presenoldeb a chwblhau'r gwaith sy'n ofynnol er mwyn llwyddo.

Roedd gan y coleg ddisgwyliadau uchel i'r dysgwyr ac nid oedd unrhyw reswm pam na allent fynd ymlaen i brifysgolion enwog fel Rhydychen a Chaergrawnt a chael swyddi sgiliedig, lefel uchel.

Cyfleuster ychwanegol arall y byddai'r coleg yn ei gynnig yn ystod yr haf fyddai llyfrgell newydd fel gwagle cymdeithasol modern.

Mae'r Ganolfan Beirianneg newydd yn cael ei hadeiladu yn y Rhyl, gan symud o safle Llandrillo yn Rhos, sy'n dangos ymrwymiad gwirioneddol yn y Rhyl.

Byddai rhan o'r adeilad newydd yn canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy i hyfforddi prentisiaid a staff i weithio ar y ffermydd gwynt niferus yn yr ardal sydd angen pobl sgiliedig i'w cynnal a'u cadw a byddai'r rhain yn swyddi da gyda chyflogau uchel. Mae'r coleg yn gweithio mewn partneriaeth â chwmni RWE Renewables i wireddu hyn.

Byddai'r adeilad newydd yn cynnig perianneg (peirianwaith) ac electroneg mwy traddodiadol a gweithgynhyrchu lefel uwch, a fyddai'n datblygu cyflogeion sgiliedig er mwyn denu busnesau a buddsoddiad i'r ardal.

Roedd yr hyfforddiant cerbydau modur yn mynd o nerth i nerth ac roedd y coleg wedi prynu car Tesla i'r myfyrwyr gael profiadau dysgu ymarferol.

Roedd y bwriad gwreiddiol o agor y ganolfan ym mis Medi wedi'i ohirio i oddeutu hanner tymor yr Hydref oherwydd oedi cyn derbyn deunyddiau'r ffrâm ddur oherwydd rhyfel Rwsia yr erbyn Wrcráin.

Buddsoddwyd £1m mewn offer peirianneg Technoleg Gwybodaeth. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu 65% o gyfanswm costau'r adeiladu a defnyddiwyd cronfeydd Adfer wedi Covid hefyd.

Cyfaddefodd Mr Wood ei fod yn wynebu rhai pryderon recriwtio i'r dyfodol, fel nifer o sefyliadau a phroffesiynau eraill ar hyn o bryd, ond eu bod yn gwneud yn iawn ar hyn o bryd.

Y bwriad oedd cynyddu'r ddarpariaeth Lefel A a gynigir gan Chweched Dosbarth y coleg, ond roedd hyn yn anodd gan fod y coleg yn adnabyddus fel man ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol. Cynigir addysgu o'r radd flaenaf a oedd un marc yn unig o fod yn y 25% uchaf o ran cyflawniad yn y Deyrnas Unedig y llynedd. Os yw'r coleg yn llwyddo i gynnal y safon hwn mae'n sicr y bydd y niferoedd sy'n astudio pynciau Safon Uwch yn cynyddu.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r aelodau, dywedodd Mr Wood:

- ei fod yn cydnabod y gwrthgyferbyniad rhwng darparu brecwast am ddim a darpariaeth Starbucks, ond roedd yr adborth gan y myfyrwyr a'r staff yn ardderchog ac mae'n ymddangos ei fod yn gweithio.

- penodwyd y mentoriaid yn ystod y cyfnod clo yn wreiddiol, ond ni allai gadarnhau a oeddynt wedi'u cyflwyno mewn safleoedd dysgu eraill ar draws Gogledd Cymru.

- roedd y gyfradd llwyddiant y llynedd yn 76%, sef nifer y dysgwyr a gwblhaodd eu cwrs a llwyddo ynddo, gan adael 24% na wnaethant. Roedd yn siomedig gyda'r 24% ac roedd hon yn her barhaus.

- roedd cyfraddau cwblhau cyrsiau'r coleg yn uwch eleni.

- roedd colli peirianwyr cymwysedig i ddinasoedd cyfagos yn Lloegr pe na bai digon o swyddi lleol ar gael yn risg, ond un gwerth ei gymryd.

- bydd y bloc peirianneg yn cynnwys y dechnoleg a'r peiriannau diweddaraf a byddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei lledaenu ledled y campws i ddenu dysgwyr a buddsoddi a chryfhau'r cysylltiadau â diwydiant lleol.

- mae RWE Renewable wedi ymrwymo'n llwyr i weithio gyda'r coleg fel y prif ddarparydd prentisiaethau.

- mae'r coleg yn recriwtio staff yn barhaus ond, heb fod eisiau temtio ffawd, dywedodd eu bod mewn sefyllfa dda yn gyfredol.

- mae'r campws yn cynnwys Chweched Dosbarth sy'n cynnig amrediad o bynciau gyda dosbarthiadau bach sy'n darparu addysgu rhagorol, a byddai cyrsiau gradd yn cael eu cynnig y flwyddyn nesaf, gan ehangu'r ddarpariaeth ymhellach.

- darparodd y coleg 3,000 o brentisiaethau ac mae ganddo gysylltiadau cryf â chwmniau cerbydau modur lleol a chwmniau adeiladwaith lleol.

- mae'r ddarpariaeth Lefel A yn eithaf bach ar hyn o bryd, ond byddai'n ehangu gan ddefnyddio ffyrdd creadigol i ddenu dysgwyr er gwaethaf yr heriau a'r cyfyngiadau ariannol.

Ar ran yr aelodau diolchodd y Maer i Mr Wood am ei amser a dywedodd eu bod yn edrych ymlaen yn fawr at weld y ganolfan beirianneg newydd.

## 36. DIWEDD Y CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer bod y cyfarfod wedi diweddu.

Y Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..